# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 3

CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Cydnabod cyrff dyfarnu*

### 12 Cydnabod: dehongli

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, cydnabyddir corff mewn cysylltiad â dyfarnu cymhwyster—

(a) os na osodir unrhyw feini prawf o dan adran 6 mewn cysylltiad â'r cymhwyster, os cydnabyddir y corff o dan adran 8 (ar yr amod nad yw'r cymhwyster yn un a bennir, neu o ddisgrifiad a bennir, gan y corff o dan adran 8(2) ac nad yw'n un y mae cydnabyddiaeth o'r corff mewn cysylltiad ag ef wedi peidio â chael effaith fel y'i nodir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 3);

(b) os gosodir meini prawf o dan adran 6 mewn cysylltiad â'r cymhwyster, neu gymwysterau o'r disgrifiad hwnnw, os yw'r corff—

(i) yn cael ei gydnabod o dan adran 8, a

(ii) yn cael ei gydnabod o dan adran 9 mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymhwyster neu'r disgrifiad o gymhwyster o dan sylw.

(2) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at gydnabyddiaeth yn gyfeiriadau at gydnabyddiaeth o dan y Rhan hon;

(b) mae cyfeiriadau at gorff cydnabyddedig yn gyfeiriadau at gorff dyfarnu a gydnabyddir o dan y Rhan hon.

(3) At ddibenion y Rhan hon, dyfarnu cymhwyster yng Nghymru yw ei ddyfarnu i bersonau a asesir mewn cysylltiad â'r cymhwyster yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 12 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 12.